

# Hetiau



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# Hetiau Coiff

**Coiff** — roedd coiffau, a oedd yn clymu o dan yr ên, yn cael eu hystyried yn ddillad isaf — roeddent yn arwydd o barchusrwydd ac ni fyddai unrhyw un â hunan-barch yn cael ei weld yn gyhoeddus heb fod yn gwisgo penwisg. Roeddent yn cael eu gwisgo o dan hetiau ffurfiol gan bawb dros 12 oed, ac eithrio'r rheiny a oedd yn gwneud gwaith llafur corfforol. Roedd iddynt sawl defnydd ymarferol hefyd, gan y byddent wedi cyfyngu ar ledaenu llau pen, ac yn cadw saim, baw a llau rhag difwyno hetiau allanol drutach. Roedd coiffau yn cael eu gwisg i'r gwely hefyd i gadw pobl yn gynnes yn ystod y nos. Roedd coiffau'n cael eu gwneud o liain, sef ffabrig yn cael ei wneud o'r planhigyn llin.



## Sut ydyn ni'n gwybod am coiffau?

Mae llawer o ddarluniau mewn llawysgrifau canoloesol o bobl ar bob lefel o'r gymdeithas yn gwisgo coiffau, gan gynnwys Luttrell Psalter; Romance of Alexander; Murthly Hours, a Queen Mary's Psalter.



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# Hetiau

## Cwfl â blaen botymog

**Cwfl â blaen botymog** — gallai hwn fod wedi cael ei wisgo i fyny i orchuddio'r pen, neu i lawr i gadw'r gwddf yn unig yn gynnes, gan ddibynnu ar y tymor a'r tywydd. Mae wedi'i wneud o wllân, gyda leinin lliain a botymau piwter bwrw.

Roedd y cwfl canoloesol yn cael ei wisgo gan ddynion, menywod a phlant. Roedd yn wisg ymarferol iawn mewn tywydd oer, a daeth yn eitem ffasiynol hefyd. Cafodd y liribib (y pwynt ar gefn y pen) ei hymestyn nes ei bod o faint anferthol erbyn diwedd y 15fed Ganrif.

Gellir gwisgo'r cwfl oddi ar y pen, wedi'i droi'n ôl ar yr ymyl blaen, neu gallai'r gwisgwr guddio i ffwrdd y tu mewn iddo — roedd yn ddefnyddiol mewn tywydd glawog neu os oedd y gwisgwr eisiau ymddangos yn ddirgel.

### Sut ydyn ni'n gwybod am gyflau gwllân?

Mae llawer o ddarluniau mewn llawysgrifau canoloesol o bobl ar bob lefel o'r gymdeithas yn gwisgo cyflau, gan gynnwys Luttrell Psalter, Romance of Alexander, Murthly Hours, a Queen Mary's Psalter.





# Hetiau

## Het ag ymyl plyg

**Het ag ymyl plyg** — mae dwy haenen o wllân i'r het hon, a fyddai'n cadw'r gwisgwr yn gynnes. Gallai fod yn unlliw neu fod o amrywiaeth o liwiau, a byddai'n het ddwyffordd hefyd, gan ei gwneud yn benwisg amlbwrpas.



### Sut ydyn ni'n gwybod am hetiau gwllân?

Mae llawer o ddarluniau mewn llawysgrifau canoloesol o bobl ar bob lefel o'r gymdeithas yn gwisgo hetiau, gan gynnwys Luttrell Psalter, Romance of Alexander, Murthly Hours, a Queen Mary's Psalter.



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# Hetiau Gwimpl

**Gwimpl** — roedd hi'n ofynnol i fenywod parchus 12 oed a hŷn orchuddio'u gwallt, a byddent yn gwisgo gwimplau. Mae sawl math o wimpl — roedd rhai fel tiwb lliain a oedd yn lletach ar un pen na'r llall — gellid tynnu'r rhain dros y pen a'u gwisgo, gyda'r angen am help gan forwyn.

Roedd menywod cyfoethog a oedd â morynion i'w helpu i wisgo'u penwisgoedd, yn gwisgo gwimplau a oedd yn cynnwys dau strived lliain — un yn cael ei ddirwyn o amgylch corun y pen, y llall yn cael ei wisgo o frig y pen i o dan yr ên. Roedd y ddau strived yn cael eu pinio, ac yna roedd 'gorchudd' petryal neu hirgrwn o liain, sidan neu wlân tenau yn cael ei binio i'r rhain.



## Sut ydyn ni'n gwybod am wimplau?

Mae llawer o ddarluniau mewn llawysgrifau canoloesol o fenywod ar bob lefel o'r gymdeithas yn gwisgo gwimplau, gan gynnwys Luttrell Psalter, Romance of Alexander, Murthly Hours, a Queen Mary's Psalter.

